# 5. Llythyr Templed at yr Adran Gwaith a Phensiynau i Herio Budd-daliadau



Mae'n wybyddus fod achosion lle mae'r Adran Gwaith a Phensiynau wedi terfynu mynediad goroeswyr at fudd-daliadau ar ddiwedd y cyfnod o dri mis o ganiatâd dros dro i aros (Consesiwn Trais Domestig Diymgeledd) er bod y goroeswr wedi cyflwyno cais 'o fewn yr amser' i'r Swyddfa Gartref am Ganiatâd Amhenodol i Aros dan y Rheol Trais Domestig.

Nid yw hyn yn gyfreithiol, oherwydd dan adran 3C *Deddf Mewnfudo 1971*, cyhyd â bod y cais am ganiatâd amhenodol i aros wedi'i gyflwyno cyn diwedd y cyfnod o ganiatâd dros dro i aros (h.y. cyfnod y Consesiwn Trais Domestig Diymgeledd), caiff y caniatâd hwn i aros ei estyn yn awtomatig tan i'r Swyddfa Gartref wneud penderfyniad ar y cais am ganiatâd amhenodol i aros.

Mewn achosion o'r fath, gall helpu i anfon llythyr at yr Adran Gwaith a Phensiynau'n esbonio beth yw caniatâd Adran 3C, a beth yw hawliau'r goroeswr.

Mae Canolfan Gyfreithiol y Plant wedi datblygu llythyr templed at y diben hwn (gweler isod) - gellir ei lawrlwytho hefyd o'u gwefan: Llythyr Templed Adran 3C.

Noder, i'r rheini sydd â chaniatad dros dro i aros dan y Consesiwn Trais Domestig Diymgeledd, mae cais "o fewn yr amser" yn golygu cais am ganiatâd amhenodol i aros a wnaed o fewn cyfnod 3 mis y Consesiwn Trais Domestig Diymgeledd.

## LLYTHYR TEMPLED

**Eich cyfeiriad yn llawn**

**Enw a chyfeiriad y sefydliad sy'n gofyn am wybodaeth am eich statws mewnfudo**

**DYDDIAD**

Annwyl Syr/Fadam

**Eich enw, dyddiad geni a chenedligrwydd**

**Enw, dyddiad geni a chenedligrwydd pob dibynnydd (fel arfer unrhyw aelodau o'r teulu a gynhwysir yn eich cais)**

Cyflwynais gais am ganiatâd pellach i aros yn y DU, ar sail **nodwch y rheswm roeddech chi'n gofyn am ganiatâd i aros yn y DU e.e. fy mywyd preifat a**

**a theuluol.** Cyn hyn roedd gennyf ganiatâd i aros ar y sail hon, gyda chaniatâd i **rhestrwch yr amodau ar eich caniatâd diwethaf e.e. gweithio, astudio a mynediad at gyllid cyhoeddus yn y DU. Dylai fod hwn wedi'i ysgrifennu'n glir yn y llythyr penderfyniad ers eich caniatâd diwethaf i aros**.

Cyflwynwyd fy nghais i estyn fy nghaniatâd i aros yn y DU ar **DYDDIAD**, cyn i fy nghaniatâd blaenorol i aros ddod i ben (ar **DYDDIAD**).

Mae Adran 3C Deddf Mewnfudo1971 yn caniatáu i bersonau sydd wedi cyflwyno cais o fewn yr amser penodedig estyn eu harhosiad yn y DU. Ni ystyrir eu bod yn aros yn hirach na'r hyn sy'n ganiatadwy tra bod eu cais yn aros ac mae'r amodau a nodwyd ar gyfer eu caniatâd blaenorol i aros yn parhau.

Gan fy mod wedi cyflwyno fy nghais pan oedd gennyf ganiatâd i aros, mae fy nghaniatâd yn cael ei estyn yn awtomatig gyda'r un amodau. Mae hyn yn golygu fy mod yn dal yn cael **rhestrwch yr amodau ar eich caniatâd diwethaf e.e. gweithio, astudio a mynediad at gyllid cyhoeddus yn y DU. Dylai fod hwn wedi'i ysgrifennu'n glir yn y llythyr penderfyniad ers eich caniatâd diwethaf i aros.**

Gall cyflogwyr ofyn i'r Swyddfa Gartref wirio statws mewnfudo cyflogai neu ddarpar gyflogai yn defnyddio'r Gwasanaeth Gwirio i Gyflogwyr: https://www.gov.uk/employee-immigration-employment-status.

Nid wyf i eto wedi derbyn penderfyniad yn **fy achos i / achos fy nheulu**. Rwyf i'n deall mai safon gwasanaeth y Swyddfa Gartref ar gyfer gwneud penderfyniadau ar y math hwn o gais yw chwe mis.

**Os oes mwy na chwe mis wedi mynd ers i chi gyflwyno eich cais, gweler y llythyr templed ar ymholi ymhellach ar statws eich cais mewnfudo, yna cynhwyswch y ddwy frawddeg ganlynol:** Cysylltais â'r Swyddfa Gartref i holi am statws fy nghais ar **DYDDIAD** ac rwyf i'n aros am ymateb.

Er gwaethaf yr oedi hwn gan y Swyddfa Gartref, mae gennyf hawl parhaus i breswylio yn y DU, yn cynnwys yr hawl i **rhestrwch yr amodau ar eich caniatâd diwethaf e.e. gweithio, astudio a mynediad at gyllid cyhoeddus yn y DU. Dylai fod hwn wedi'i ysgrifennu'n glir yn y llythyr penderfyniad ers eich caniatâd diwethaf i aros**.

Yn gywir,

**Eich llofnod**

**Eich enw**